**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 18 Rhagfyr 2025**

**Cynhaliwyd ym Mhrif Swyddfa TrC, Llys Cadwyn, Pontypridd**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Vernon Everitt | Aelod anweithredol a Chadeirydd |
| Alun Bowen | Aelod anweithredol |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Peter Strachan | Aelod anweithredol |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Ian Lucas | Cyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt |
| Ceri Taylor | Rheolwr Cymorth Corfforaethol |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (Eitem 3) |
| Zoe Smith-Doe | Pennaeth Adrodd Corfforaethol (Eitem 5) |

**<u>Rhan A – Eitemau sefydlog</u>**

**1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Nododd y Bwrdd mai hwn oedd cyfarfod olaf Alun Bowen. Ar ran y Bwrdd, diolchodd y Cadeirydd iddo am ei gyfraniad enfawr i TrC dros y saith mlynedd diwethaf a dymunodd y gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau anweithredol a'r aelodau gweithredol am eu gwaith drwy gydol 2025 ac am yr egni, y creadigrwydd a'r ddealltwriaeth yr oedd pawb wedi'i gyfrannu at y Bwrdd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alan McCarthy ac Andrew Morgan.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Dim.

**1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2025 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch a Rhwydwaith T**
Adolygodd y Bwrdd ddigwyddiad diweddar yng ngorsaf Llandaf, a oedd yn cynnwys peintio dros arwydd diogelwch. Trafodwyd y gwersi a ddysgwyd.

**3. Perfformiad Diogelwch**

*Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad ar berfformiad diogelwch. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Mae niwed corfforol i'r gweithlu wedi cynyddu yng Nghyfnod 08 y Rheilffyrdd 08 gymharu â chyfnodau eraill. Mae'r digwyddiadau hyn i weld yn digwydd bob hyn a hyn ac nid oedd thema gyson na thuedd yn datblygu.
- Mae cynnydd yn dal i gael ei wneud o ran gweithredu ar sgoriau telemateg ar draws llwybrau Traws Cymru dan gontract TrC. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am ddadansoddiad manwl o ddata diogelwch ar gyfer gweithrediadau bysiau. Cynigiodd graffu pellach, i gael ei lywio gan gynnig oddi wrth y Cyfarwyddwr Diogelwch. Hysbyswyd y Bwrdd y bydd data telemateg ychwanegol ar fysiau yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf [**Lorenzo Visentin i weithredu**].
- Trafodwyd cyhoeddiadau awtomatig i gwsmeriaid. Dywedwyd bod angen cymryd gofal i osgoi gormod o sŵn a bod angen ystyried cyfathrebu ar drenau ac ar fysiau.
- Roedd y pynciau ychwanegol a drafodwyd yn cynnwys Pasio Signalau Stop (SPaDs) a chamau gweithredu parhaus i wella perfformiad diogelwch.

**4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Cafodd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Cynhaliwyd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yn ddiweddar, ar yr un diwrnod ag y cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth gyllid ar gyfer Gwelliannau Caerdydd Canolog. Hysbyswyd y Bwrdd mai pwrpas craidd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yw sicrhau bod yr arian sy'n cael ei ddyrannu i wella'r rheilffyrdd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau manteision cyn gynted â phosibl. Bydd templed prosiect Rhwydwaith Gogledd Cymru yn cael ei fabwysiadu ar gyfer cynlluniau Burns yn y de a bydd Pwyllgor Prosiectau Mawr TrC yn craffu arno. Trafododd y Bwrdd yr angen i ddatganoli cyllid yr Adolygiad o Wariant i Fwrdd Rheilffyrdd Cymru. Nodwyd nifer o fanteision i hyn, gan gynnwys symleiddio llif arian a chyflymder y ddarpariaeth. Gofynnodd y Bwrdd am rywfaint o fanylion ychwanegol am rôl Bwrdd Rheilffyrdd Cymru [**Sam Hadley i weithredu**]. Nododd y Bwrdd y bydd y ddogfen 'Heddiw, Yfory, Gyda'n Gilydd – Gweledigaeth ar gyfer rheilffyrdd ledled Cymru a'r Gororau' yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd.
- Mae sgoriau Trustpilot TrC wedi cynyddu i 3.4, gydag ymdrechion parhaus i wella boddhad cwsmeriaid. Diolchodd y Bwrdd i Vinay Parmar am ei syniadau ar sut i gynyddu'r sgôr. Croesawodd y Bwrdd ffigurau chwarterol diweddar Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) a oedd yn gadarnhaol ar gyfer y cyfnod rhwng Gorffennaf a Medi 2025. Dangoswyd mai TrC oedd wedi gwella fwyaf o ran prydlondeb o blith holl weithredwyr trenau'r DU, gyda chynnydd o 4.9 pwynt canran i 84.1%. Roedd y metrig canslo hefyd wedi gwella'n sylweddol.
- Mae cyfarfodydd diweddar wedi cael eu cynnal gydag uwch swyddogion gweithredol Network Rail

ynghylch model gweithredu Diwygio'r Rheilffyrdd, sydd wedi bod yn ddefnyddiol. Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol, yng nghyd-destun trafodaethau cadarnhaol diweddar, bod angen dal Network Rail yn gyfrifol am berfformiad o ddydd i ddydd. Atgoffwyd y Bwrdd am bwysigrwydd penawdau telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Great British Railways (GBR) a Trafnidiaeth Cymru ar gyfer Cymru a'r Gororau, a'r dystiolaeth a roddwyd yn y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth ar 17 Rhagfyr, a oedd yn sôn am TrC fel sefydliad yng nghyd-destun Great British Railways. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at Network Rail yn pwyso a mesur y sgwrs ddiweddar [**James Price a Sam Hadley i weithredu**].

- Bu cyfarfod diweddar rhwng perchnogion cerbydau CAF, CAF a TrC. Arweiniodd hyn at gynllunio pum uned arall i'w derbyn cyn y Nadolig a thrwsio problemau diweddar yn llawn. Bydd hyn yn golygu bod chwe uned ychwanegol yn ôl yn y gwasanaeth erbyn diwedd mis Ionawr 2026.
- Trafododd y Bwrdd bapur yn amlinellu ystyriaethau i TrC symud tuag at drefn gyllido aml-flwyddyn, rhywbeth i'w drafod gyda Llywodraeth Cymru. Atgoffwyd y Bwrdd ynghylch y manteision sy'n gysylltiedig â mwy o reolaeth a sicrwydd, a'r angen am linellau cyllideb sengl ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw, sy'n seiliedig ar wella gallu TrC ymhellach o ran cyllidebu a rhagfynegi. Bydd rhagolwg aml-flwyddyn ddrafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2026.

**5. Cynllun Busnes 2026-27**

*Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses amlinellol ar gyfer datblygu cynllun busnes 2026/27 a thrafodwyd yr angen i'r ddogfen gael ei defnyddio i ddal y busnes i gyfrif. Hysbyswyd y Bwrdd hefyd y bydd y Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei hysgrifennu y flwyddyn nesaf. Cytunwyd y dylai fod yn fwy cryno na'r fersiwn flaenorol a bod y Cynllun Busnes yn cael ei gyhoeddi'n gynharach nag yn y blynyddoedd a fu.

**6. Llywodraethu**

Roedd cyfarfod diweddar Panel Cynghori TrC, a fynychwyd gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr TrC, yn cynnig her dda gan randdeiliaid. Bydd camau'n cael eu cymryd i ymgysylltu â Chadeirydd y Panel Cynghori ar strategaeth TrC. Trafododd y Bwrdd yr angen i ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n teithio i mewn ac allan o Gymru.

Roedd Bwrdd Llywio mis Tachwedd yn ymdrin â masnachfreinio bysiau, perfformiad rheilffyrdd, cerbydau, cyllid, llythyr cysur TrC ac [redacted]

Roedd cyfarfod diweddar y Bwrdd Ffeibr yn un cadarnhaol a oedd yn ystyried trafodaethau parhaus ynghylch gweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael cais i leihau lefel y llog ar gyfer y benthyciad o'r 7% presennol [**Heather Clash i weithredu**].

Roedd cyfarfod mis Rhagfyr Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â pherfformiad rheilffyrdd, cyllid, seilwaith a marchnata Llinellau Craidd y Cymoedd. Nododd a chroesawodd y Bwrdd y twf cadarnhaol o 19% o un flwyddyn i'r llall ar Linellau Craidd y Cymoedd, sydd gryn dipyn yn uwch nag unrhyw beth tebyg ledled y DU.

Roedd cyfarfod diweddaraf yr is-bwyllgor Profiad Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn ystyried defnydd cwsmeriaid o ddeallusrwydd artiffisial i gefnogi staff a chwsmeriaid, defnyddio data econometreg wrth farchnata, ap Traws a defnyddio data. Trafododd y Bwrdd yr angen am ddata fel sail i'r cynllun busnes a'r strategaeth gorfforaethol [**Vinay Parmar a Heather Clash i weithredu**]. Cytunwyd y byddai Vinay Parmar yn noddi papur Bwrdd ar ddefnyddio data cwsmeriaid [**Gweithredu**].

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yr wythnos diwethaf wedi canolbwyntio ar y [redacted] diweddar, y

cynllun archwilio allanol drafft, parhad a chadernid busnes, yr adroddiad archwilio mewnol ar ddiogelu a chynlluniau ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

**7. Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu**

Trafododd y Bwrdd ddatblygiad y Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu ar ei newydd wedd. Trafododd y Bwrdd feithrin ymddiriedaeth ac eiriolaeth yng Nghymru, gan ddangos manteision i gymunedau drwy ysgogi'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a chydnabod yr angen am naratif trawsffiniol cryfach a safle mwy hyderus sy'n cael ei arwain gan gyflawniadau. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd integreiddio cyfathrebu corfforaethol, marchnata, ymgysylltu â brand a chydweithwyr, gwneud i negeseuon swnio'n fwy dyngarol, a sicrhau bod dibynadwyedd gweithredol yn parhau i fod yn ganolog i gyfathrebiadau TrC. Roedd angen i'r strategaeth hefyd gynllunio ar gyfer mynediad effeithiol i'r unedau Class 398 ar Linellau Craidd y Cymoedd. Cafodd risgiau a chymhlethdodau eu harchwilio mewn perthynas â chysylltiadau diwydiannol ym maes bysiau, cyfathrebu mewn argyfwng, a chyd-destun brandio GBR sydd ar droed, gyda'r angen am safbwyntiau polisi clir a strategaeth arwyddion rhagweithiol ar lawr gwlad yng Nghymru i wahaniaethu rhwng TrC a GBR. Defnyddiwyd enghreifftiau fel Gwelliannau Caerdydd Canolog a Ffynnon Taf i brofi egwyddorion arfaethedig, a chynghorodd y Bwrdd fod angen mwy o ganolbwyntio ar gwsmeriaid a fframio "beth nesaf" wrth edrych tua'r dyfodol. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar frandio trafnidiaeth gyhoeddus yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror [**Lewis Brencher i weithredu**]

**8. Sesiwn Gyfrinachol**

Cafodd y Bwrdd sesiwn gyfrinachol.

**9. Cynllun Cyflawni Rhwydwaith Gogledd Cymru ar gyfer y Dyfodol**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Cyflawni Rhwydwaith Gogledd Cymru, gan nodi cynnydd cryf ers sefydlu'r rhaglen a'i thrawsnewid yn gyflym i fod yn fenter aml-ddull strwythuredig sy'n canolbwyntio ar ddatgloi ffyniant rhanbarthol, gwella cysylltedd ar draws ffiniau, a mynd i'r afael â thanfuddsoddi hanesyddol. Trafododd y Bwrdd lwyddiannau cyflawni cynnar, gan gynnwys cynnydd mewn perthynas â chau croesfannau rheilffordd, gwelliannau o ran hygyrchedd, cysgodfannau bysiau newydd, gwelliannau i wennol Wrecsam-Caer, uwchraddio gwasanaethau bysiau, a gwelliannau gweithredol yng Nghaergybi. Mae'r rhaglen yn datblygu partneriaeth gyda Rhanbarth Dinas Lerpwl, yn enwedig y cyd-ariannu i fwrw ymlaen â choridor rheilffordd Wrecsam-Lerpwl. Nodwyd gweithgarwch cyfathrebu, gyda chynigion ar gyfer cyfathrebu mwy cydgysylltiedig. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r blaenoriaethau'n cynnwys gwelliannau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid mewn gorsafoedd allweddol, ymestyn gwasanaethau i Crewe, ehangu'r ddarpariaeth bysiau ranbarthol, cyflwyno tocynnau Talu Wrth Fynd, egluro brand Gogledd Cymru yn y Rhwydwaith T ehangach, a chryfhau'r achos strategol sydd ei angen i ddatgloi ffrydiau cyllido yn y dyfodol.

**10. Bysiau Casnewydd a Diwydrwydd Dyladwy**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwydrwydd dyladwy Bysiau Casnewydd. [redacted].

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben, gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.